



27.01.2021

Cathryn Ings
Cyswilt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

Erthygl i'r Wasg Press Release

Maggi Noggi – tu ôl i'r lipstic a'r sîcwins

Mae Maggi Noggi wedi datblygu i fod yn un o wynebaw mwyaf adnabyddus yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf - gyda sawl cyfres teledu o dan ei wig, mae hoff ddrag cwîn Cymru ar y ffordd i fod yn drysor cenedlaethol.

Ond yn y bennod nesaf o **Sgwrs Dan y Lloer** ar S4C, mae Elin Fflur yn cwrdd â Kristoffer Hughes - y dyn o dan yr amrannau ffug, y minlliw a'r sîcwins a dod i wybod mwy am ei waith fel technegydd patholegol yn Ysbyty Glan Clwyd a chwmselydd galar yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig.

Gallwch ddadlau bod hen ddigon yna i lenwi hanner awr o sgwrs - ond mae 'na hyd yn oed mwy i ddarganfod am Kris Hughes. Mae e hefyd â diddordeb mewn paganiaeth a derwyddiaeth. Mae'n bennaeth ar Dderwyddon Ynys Môn ac wedi ysgrifennu sawl llyfr am fytholeg a chwedlau Cymru.

Felly - lle mae dechrau? Gyda Maggi wrth gwrs - ac mae Kris wedi synnu cymaint mae'r gymuned Gymraeg wedi cymryd at Maggi.

"Nes i erioed dychmygu se' hi wedi cael ei chroesawu cymaint - ac mi oedd hyn yn berffaith glir blwyddyn diwetha' pan oni yn Steddfod Genedlaethol 2019 a'r cynhesrwydd sy'n dŵad o'r gynulleidfa Gymraeg. Ac fel arfer mae hiwmor Maggi yn reit *rude*, reit las, risqué. Ond ma' hi'n apelio rhywsut at deuluoedd ac ystod eang o bobl - a tydi hyn byth yn digwydd i ddrag cwîn," meddai Kris.

Mae Kris yn sôn yn y rhaglen am yr heriau mae e wedi gorfod wynebu yn ystod ei fywyd - colli teulu a ffrindiau a darganfod ei fod yn hoyw yn fachgen ifanc Cymraeg mewn cymuned fach wledig.

Clywn hefyd sut y darganfu byd y *drag queens* nôl yn y 90au.

"Pan es i draw i'r dinasoedd mawr, nes i fyth teimlo fy mod i'n ffitio mewn," meddai Kris. "O'n i byth yn meddwl am fy hun fel person deniadol o gwbl - ac maen nhw i gyd mor *body beautiful*. Oni ddim yn ffitio'r *remit* yna, wedyn nes i ddarganfod bod yna drag cwins - a bod y rheiny yna i wneud pobl chwerthin.

"Ac ers oni'n hogyn bach oedd gen i ryw *knack* o wneud i bobl chwerthin - ac mae hynny'n dod o Nain dw i'n meddwl. Mae hi dal yn fyw yn 99 mlwydd oed ac mae hi'n *comedian!*"

Mae Kris yn angerddol am ei waith fel technegydd patholegol.



Meddai Kris: “Dw i wedi bod yn yr yrfa yma nawr ers 30 mlynedd - mae’n bwysig bod pobl yn deall ein bod yn gofalu am y bobl sydd yn ein gofal ni. Ni yw’r unig bobl sy’ ganddyn nhw i edrych ar eu hola nhw a neud yn siŵr eu bod nhw’n saff, bod pob dim yn barchus, bod ni’n anrhydeddu'r corff fel y modur sydd wedi cario’r person yna trwy fywyd.

“Mae o’n bwysig i gydnabod da ni’n neud beth ydan ni’n neud oherwydd da ni’n caru beth da ni’n neud. A da ni yn poeni am y bobl yma, bod pob dim yn ei le a phob dim yn iawn.”

Dylai’r gair olaf fynd i Maggi Noggi, efallai, a’r rhan bwysig mae hi’n chwarae ym mywyd Kris.

“Mae Maggi yn rhoi caniatâd imi fod yn rhywun arall - mae Maggi wedi helpu fi ymdopi efo elfennau o fy mywyd sydd yn anodd, sydd yn boenus, sydd yn drist,” meddai Kris. “Mae fy ngwaith i efo marwolaeth yn gallu bod yn drist ac yn *intense*; mae fy mywyd i fel derwydd yn gallu bod yn *highbrow* ac yn llawn ymchwil a phethau ysbrydol. Mae Maggi yn y canol rhywsut, yn dal y ddau yn eu lle - fedra i ddim neud hebddi.”

Dyma flas yn unig ar fywyd llawn a chyfoethog Kristoffer Hughes - i ddarganfod mwy, gwylwch **Sgwrs Dan y Lloer** gydag Elin Fflur ar nos Lun, 8 Chwefror am 8.25.

Sgwrs Dan y Lloer

Nos Lun 8 Chwefror 8.25, S4C

Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill

Cynhyrchiad Tinopolis ar gyfer S4C



27.01.2021

Cathryn Ings
Cyswllt Contact
Ffôn Phone
03305 880450

Erthygl i'r Wasg Press Release

Maggi Noggi – behind the lipstick and sequins

With several successful TV series under her wig, Wales's best-loved drag queen Maggi Noggi is well on the way to becoming a national treasure.

In the next episode of **Sgwrs Dan y Lloer** (Chat under the stars) on S4C, Elin Fflur meets Kristoffer Hughes – the man behind the false eyelashes, lipstick and sequins and gets to learn more about his work as a pathology technician at Glan Clwyd Hospital and grief counsellor covering Wales and the UK.

You could argue that there's more than enough here to fill a half hour chat – but there's even more to discover about Kris Hughes. He also has an interest in paganism and druidry. He's the head of the Anglesey Druids and has written several books about the myths and legends of Wales.

So – where to start? Well, with Maggi, of course, and Kris is surprised at how much Welsh people have taken to Maggi.

"I never thought that she would get such a welcome – and this was perfectly clear from the warmth which came from the Welsh audience when I was at the National Eisteddfod year before last. Maggi's humour is usually quite rude, quite blue and risqué. But she appeals somehow to families and a wide range of people – and this never happens to drag queens," said Kris.

Kris speaks in the programme about the challenges he has had to face during his life – losing family and friends and - as a boy growing up in a small, rural, Welsh community - discovering that he was gay.

We also hear how he discovered the world of drag queens back in the 1990s.

"When I went to the big cities, I never felt that I fitted in," said Kris. "I had never thought of myself as an attractive person at all – and they were all so body beautiful. I didn't fit that remit, but then I discovered that there were drag queens – and that they were there to make people laugh."

"And ever since I was a young boy, I had this knack of making people laugh – and this comes from Nain, I think. She's still alive, aged 99 and she's a comedian!"

Kris is passionate about his work as a pathology technician.

Kris said: "I have been doing this job for 30 years now. It's important that people realise that we look after the people who are in our care. We are the only people they have to look after



them and ensure that they are safe, that everything is respectful, that we honour the body as the motor that has carried that person through their life.

“It’s important to acknowledge that we do what we do because we love what we do. And we do care about these people and that everything is in its place and that everything is done properly.”

The last word should go to Maggi Noggi, perhaps, and the important part she plays in Kris’s life.

“Maggi gives me permission to be somebody else – she has helped me cope with elements of my life which are difficult, which are painful, which are sad,” said Kris. “My work with death can be very sad and intense; my life as a druid can be highbrow and full of research and spiritual matters. Maggi is in the middle somehow, keeping the two in place – I couldn’t do without her.”

This is just a taste of Kristoffer Hughes’s full and rich life – to find out more, watch **Sgwrs Dan y Lloer** with Elin Fflur on Monday, 8 February am 8.25.

Sgwrs Dan y Lloer

Nos Lun 8 Chwefror 8.25, S4C

Ar alw: S4C Clic, iPlayer a llwyfannau eraill

Cynhyrchiad Tinopolis ar gyfer S4C